**<u>TREFNIADAU DYCHWELIAD DISGYBLION 3-7 OED – *RETURN ARRANGEMENTS FOR 3-7 YEARS OLD PUPILS.*</u>**

At rieni disgyblion y Meithrin, Derbyn, Blwyddyn 1 a 2,

Erbyn hyn, rydym mewn sefyllfa i rannu manylion efo chi am ein trefniadau ar gyfer dychweliad disgyblion 3-7 oed yn ystod yr wythnos sy'n dilyn y gwyliau hanner tymor. Bydd hyn yn digwydd yn raddol fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| **22.02.21** | Diwrnod Hyfforddiant mewn Swydd |
| **23.02.21** | Disgyblion Blwyddyn 2 a'r Derbyn |
| **24.02.21** | Disgyblion Blwyddyn 1 a'r Meithrin |
| **25.02.21** | Pawb – Meithrin/Derbyn/Blwyddyn 1 a 2 |
| **26.02.21** | Pawb – Meithrin/Derbyn/Blwyddyn 1 a 2. |

Bydd trefniadau dydd i ddydd y Cyfnod Sylfaen yn dychwelyd i'r hyn ydoedd cyn y Nadolig, gyda phwyslais eto ar ddiogelwch pob disgybl ac oedolyn o fewn cymuned yr ysgol .

Golyga hyn y bydd trefniadau'r Hwb presennol ar gyfer plant i weithwyr allweddol/bregus yn **dod i ben** ar gyfer disgyblion y Cyfnod Sylfaen, ond yn parhau i ddisgyblion Cyfnod Allweddol 2.

Bydd y Clybiau Brecwast ac ar ôl ysgol yn gweithredu fel arfer, sy'n golygu y bydd angen archebu lle a thalu ar gyfer rhain ar – lein fel o'r blaen. Wele'r wybodaeth:

| | |
|---|---|
| Clwb Ben Bore | 7.30 – 8.30 |
| Clwb Brecwast | 8.30 – 9.00 (angen cyrraedd cyn 8.45) |
| Clwb ar ôl Ysgol | 3.00 – 5.45 |

Os oeddech wedi archebu lle i'ch plentyn ar gyfer unrhyw un o'r Clybiau cyn y Nadolig, fe fydd hyn yn cael ei ddileu ac fe fyddwn yn cychwyn o'r newydd o Ddydd Mawrth, Chwefror 23ain hyd at Fawrth 26ain.

Gofynnwn yn garedig os gwelwch yn dda i chi **<u>DDIM OND</u>** defnyddio y Clwb Brecwast am ddim os **<u>OES GWIR</u>** angen gwneud hynny. Byddwn yn monitro y sefyllfa hon gan erfyn arnoch i fod yn ddoeth ac ystyriol tuag at rieni sydd yn weithwyr allweddol sydd wir yn dibynnu ar y ddarpariaeth yma.

Bydd y system archebu ar-lein ar gyfer y Clybiau yn dod yn fyw am hanner dydd heddiw, dydd Mawrth, Chwefror 9fed.

Edrychwn ymlaen at groesawu disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn ôl i'r ysgol, ac arhoswn yn amyneddgar am y cyhoeddiad parthed dychweliad disgyblion Cyfnod Allweddol 2.

Llawer o ddiolch am eich cydweithrediad.

**<u>RETURN ARRANGEMENTS FOR 3-7 YEAR OLD PUPILS.</u>**

*To the parents of Nursery, Reception, Years 1 & 2 pupils,*

*By now, we are in a position to share details with you regarding the return of our 3-7 year old pupils during the week following the half term holiday. This will take place as follows:*

| | |
|---|---|
| **22.02.21** | *In service training day* |
| **23.02.21** | *Reception and Year 2 pupils.* |
| **24.02.21** | *Nursery and Year 1 pupils.* |
| **25.02.21** | *All Nursery/Reception/Years 1 and 2 pupils.* |
| **26.02.21** | *All Nursery/Reception/Years 1 and 2 pupils.* |

*The day to day arrangements for the Foundation Phase pupils will return to what they were before we closed at Christmas, with emphasis given to the safety of every pupil and adult within the school's community.*

*This means that the present Hwb arrangements will come* ***to an end*** *for the Foundation Phase pupils, but will continue for Key Stage 2 pupils.*

*The Before and After School Clubs will re-commence and operate as usual, which means you will need to book and pay online for these as before. These are as follows:*

| | |
|---|---|
| *Before school Club* | *7.30 – 8.30* |
| *Breakfast Club* | *8.30 – 9.00 (need to arrive before 8.45 a.m.)* |
| *After school Club* | *3.00 – 5.45* |

*If you had already booked a place for your child for any of the Clubs since before Christmas, these bookings will be deleted and we will begin as new from Tuesday, February 23rd. until Friday, March 26th.*

*You are kindly asked to* ***ONLY*** *use the Breakfast Club if there is a* ***GENUINE NEED****. We will be monitoring this situation and ask you to be wise and considerate of those parents who are key workers who genuinely need the provision.*

*The on line system for the Before and After School Clubs will be live at mid day today, Tuesday, February 9th.*

*We look forward to welcoming the Foundation Phase pupils back to school, and we patiently await for the announcement regarding the return of Key Stage 2 pupils.*

*Many thanks for your co-operation.*